Atodiad A

# Cyngor Bro Morgannwg -
# Polisi ar gyfer gosod offer ar y briffordd

## Ardal Masnachu Dros Dro
## Byrddau Hysbysebu
## Sgaffaldiau
## Sgipiau

Fersiwn 3 – Ebrill 2024

**Cyflwyniad:**

Bwriad y polisi hwn yw helpu unigolion i ddeall y caniatadau sydd eu hangen gan y Cyngor a sut y bydd ceisiadau'n cael eu hasesu ar gyfer eitemau fel:

- Ardaloedd Masnachu Dros Dro – byrddau a chadeiriau, meinciau neu fasnachu nwyddau y tu allan
- Byrddau Hysbysebu
- Sgaffaldiau
- Sgipiau

Er y bydd pob cais yn cael ei ystyried yn ôl ei rinweddau, mae'r polisi hwn yn cynnwys pwyntiau allweddol y mae'n rhaid eu hystyried ym mhob achos.

Mae Cyngor Bro Morgannwg yn cefnogi ac yn annog yr offer darparu ar asedau priffyrdd, gan eu bod yn gwneud cyfraniad cadarnhaol drwy ychwanegu bywiogrwydd, lliw, bywyd a diddordeb at y stryd.  Gallant helpu i wneud y mwyaf o fannau cyhoeddus, ac ategu'r economi leol a'r cyfleusterau a gynigir i drigolion, gweithwyr ac ymwelwyr â Bro Morgannwg.

Er bod y tîm cynnal priffyrdd yn annog hyn, mae'n bwysig iddynt gael eu gweinyddu a'u rheoli'n gywir i sicrhau eu bod yn bodloni'r safonau uchel a ddisgwylir yng Nghyngor Bro Morgannwg.  Ni ddylent rwystro'r droedffordd na chreu perygl i gerddwyr, yn enwedig i bobl ddall, rhannol ddall a phobl eraill sy'n defnyddio'r droedffordd. Yn yr un modd, ni ddylai byrddau hysbysebu, a elwir yn fyrddau ffrâm A, rwystro symudiad llif rhydd troedffordd fabwysiedig ychwaith ac mae angen ystyried effaith masnachwyr yn defnyddio'r gofod masnachu allanol yn ofalus.

Bydd swyddogion y Cyngor hefyd yn falch o gynnig cyngor i chi gyda'ch cais. Anfonwch eich ymholiadau i highwaymaintenance@valeofglamorgan.gov.uk.

**Gofynion deddfwriaethol:**

At ddibenion y polisi hwn, ystyrir bod ardaloedd masnachu awyr agored a chaffis palmant yn fyrddau a chadeiriau a osodir ar y droedffordd lle gall cwsmeriaid fwyta ac yfed, ond mae'r un broses yn berthnasol i fannau masnachu allanol ar yr ased fabwysiedig o ran byrddau hysbysebu.

Cyn cytuno ar drwydded ar gyfer ardaloedd masnachu awyr agored a chaffis palmant ar droedffordd, rhaid i'r Cyngor sicrhau nad effeithir yn negyddol ar hawliau'r cyhoedd i ddefnyddio'r droedffordd.

**Ymgynghori:**

Cyn rhoi unrhyw drwydded ardal masnachu awyr agored neu drwydded bwrdd hysbysebu, mae gan Gyngor Bro Morgannwg ddyletswydd statudol i ymgynghori â'r eiddo cyfagos a chael caniatâd pob blaen adeilad sydd â diddordeb, gan gynnwys arddangos cynllun o'r cynnig yn gyhoeddus am 7 diwrnod calendr.  Felly, fe'ch cynghorir i siarad â'ch cymdogion ynglŷn â'ch cynnig cyn cyflwyno'r cais i'r Cyngor.

Ymdrinnir â gwrthwynebiadau drwy fewnflwch Cynnal a Chadw Priffyrdd Cyngor Bro Morgannwg yn highwaymaintenance@valeofglamorgan.gov.uk.

**Y caniatadau sydd eu hangen:**

Mae rhoi nwyddau i'w gwerthu, byrddau hysbysebu, byrddau a chadeiriau, sgipiau a sgaffaldiau ar yr ased mabwysiedig, megis troedffordd heb ganiatâd yn rhwystr anghyfreithlon ac ni cheir rhoi unrhyw eitemau ar yr ased mabwysiedig nes bod Cyngor Bro Morgannwg wedi rhoi caniatâd.

Bydd y Cyngor yn cymryd camau gorfodi mewn achosion o'r fath a gallai hyn effeithio ar y cais.

**Prosesu'r cais:**

Gan fod pob cais yn wahanol, mae'n anochel y bydd yr amser a gymerir i'w prosesu yn amrywio. Yn gyffredinol, amcangyfrifir y bydd yn cymryd tua mis neu lai i brosesu cais ar gyfer ardal fasnachu allanol neu fyrddau hysbysebu o'r adeg y daw'r cais i law tan i'r Cyngor roi'r drwydded. Bydd y broses ymgeisio'n gynt os bydd eich cynnig yn cydymffurfio â'r gweithdrefnau arfer da sydd yn y canllawiau hyn, a bod yr holl wybodaeth ategol ofynnol yn cael ei chyflwyno ynghyd â'ch cais.

**Yswiriant:**

Bydd rhaid i'r trwyddedai ddangos tystiolaeth o yswiriant atebolrwydd cyhoeddus trydydd parti priodol gwerth o leiaf £5,000,000 i'r Cyngor.

**Dirwyon gweinyddu:**

Bydd dirwy weinyddol o £111.00 ynghyd â'r ffi drwydded wreiddiol yn berthnasol lle bydd methiant i gael caniatâd gan Gyngor Bro Morgannwg.

**Strwythur Ffioedd Blynyddol:**

**<u>Trwydded Caffi Stryd – Atodiad 01:</u>**

Codir taliadau'n flynyddol a byddant yn rhedeg o 1 Gorffennaf.

Cyfrifoldeb y trwyddedai yw talu'r ffi yn flynyddol ac nid yw'r drwydded yn adnewyddu'n awtomatig.

- 1 – 2 bwrdd a hyd at 8 cadair / sedd - £267 y flwyddyn
- 3 – 4 bwrdd a hyd at 16 cadair / sedd - £534 y flwyddyn
- 5 - 10 bwrdd a hyd at 40 cadair / sedd - £1,067 y flwyddyn
- 11+ o fyrddau a dros 40 cadair / sedd - £1,601 y flwyddyn, ynghyd â £35 am bob cadair / sedd ychwanegol dros 40.

At ddibenion y ffi, tybir bod gan fainc safonol 3 sedd.

At ddibenion y ffi, mae bwrdd picnic traddodiadol yn cyfateb i 1 bwrdd a 4 sedd

Mae'r costau hyn yn cynnwys uchafswm o 1 bwrdd hysbysebu o fewn y gofod.

Rhoddir caniatâd i ddefnyddio'r droedffordd ar gyfer ardaloedd masnachu awyr agored a chaffis palmant o dan Adran 157 Deddf Priffyrdd (1980).

**Ardal fasnachu allanol ar gyfer gwerthu nwyddau – Hefyd yn Atodiad 01:**

Dan 5 metr sgwâr - £267 y flwyddyn

Dros 5 metr sgwâr - £534 y flwyddyn

Mae'r costau hyn yn cynnwys uchafswm o 1 bwrdd hysbysebu o fewn y gofod.

Nid yw'r ardal fasnachu allanol i fod yn fwy na 10 metr sgwâr ar y droedffordd fabwysiedig.

**Byrddau hysbysebu - Atodiad 02:**

Codir taliadau'n flynyddol a byddant yn rhedeg o 1 Gorffennaf

Cyfrifoldeb y trwyddedai yw talu'r ffi yn flynyddol ac nid yw'r drwydded yn adnewyddu'n awtomatig.

Mae cais am fwrdd hysbysebu yn costio £119 yr un gydag uchafswm o **ddau** fwrdd hysbysebu fesul busnes. Mae hyn yn cynnwys unrhyw rai a ganiateir o dan y gofod masnachu allanol.

Rhoddir caniatâd i ddefnyddio'r droedffordd ar gyfer ardaloedd masnachu awyr agored a chaffis palmant o dan Adran 157 Deddf Priffyrdd (1980).

**Sgaffaldiau ar y briffordd – Atodiad 03:**

Mae Cyngor Bro Morgannwg yn codi **£125.00** ar gyfer ceisiadau i godi sgaffaldiau ar y briffordd ac mae'r tâl yn berthnasol am 28 diwrnod. Cyfrifoldeb y trwyddedai yw talu'r ffi yn flynyddol ac nid yw'r drwydded yn adnewyddu'n awtomatig.

**Rhaid** i gontractwyr ddeall a chytuno i'r Telerau ac Amodau yn Atodiad 03. Gallai Cyngor Bro Morgannwg dynnu trwydded wedi'i chaniatáu yn ôl os na chydymffurfir â'r Telerau ac Amodau.

Bydd rhaid i'r Cyngor fod wedi derbyn y cais hwn o leiaf 24 awr cyn y bwriedir codi'r sgaffaldau y cyflwynir y cais hwn ar eu cyfer.

Rhoddir caniatâd i ddefnyddio'r droedffordd ar gyfer sgaffaldiau o dan Adran 169 a 172 Deddf Priffyrdd (1980).

**Sgipiau ar y briffordd- Atodiad 04:**

Mae Cyngor Bro Morgannwg yn codi **£75.00** ar gyfer ceisiadau i osod sgipiau adeiladu ar y briffordd. **Rhaid** i gontractwyr ddeall a chytuno i'r Telerau ac Amodau yn Atodiad 04. Gallai Cyngor Bro Morgannwg dynnu trwydded wedi'i chaniatáu yn ôl os na chydymffurfir â'r Telerau ac Amodau.

Bydd rhaid i'r Cyngor dderbyn y cais hwn o leiaf 24 awr cyn y bwriedir gosod y sgip/sgipiau y cyflwynir y cais hwn amdano/amdanynt. Bydd y sgip/sgipiau yn cael ei osod/eu gosod yn union y tu allan i'r man gwaith ac na fydd/fyddant yn cael ei osod/eu gosod ar fannau lle mae cyfyngiadau parcio megis mannau parcio i ddeiliaid trwydded a phreswylwyr, a llinellau melyn dwbl, oni bai bod cytundeb swyddogol gyda'r Arolygydd Priffyrdd ymlaen llaw.

Gellir rhoi caniatâd o dan Adran 139 a 140 o Ddeddf Priffyrdd 1980 ac **ni** chaiff y contractwr osod y sgip nes bod Cyngor Bro Morgannwg wedi rhoi caniatâd.

**Trwydded Caffi Stryd ac Ardal fasnachu allanol ar gyfer gwerthu nwyddau – Atodiad 01**

Mae Cyngor Bro Morgannwg wedi cyflwyno Telerau ac Amodau ar gyfer darparu Ardaloedd Masnachu ar gyfer Bwyd a Diodydd ar briffyrdd yn berthnasol o 1 Gorffennaf 2021 ymlaen.

1. Rhaid i unrhyw fusnes sy'n gwneud cais am ofod masnachu allanol gael yswiriant atebolrwydd cyhoeddus gwerth £5,000,000 mewn perthynas ag unrhyw ddigwyddiad a rhaid cynhyrchu copi o'r yswiriant hwn i'r Cyngor cyn y gellir ystyried trwydded.

2. Bydd yr holl drwyddedau Ardaloedd Masnachu neu Gaffi Stryd presennol ar brifffordd neu leoliadau eraill y cytunwyd arnynt yn flaenorol ac sydd ar waith yn cael eu hatal dros dro o 31 Mawrth 2020 hyd nes y clywir yn wahanol.

3. Caffis, bwytai, tafarndai neu sefydliadau arlwyo eraill sy'n gweini bwyd a diod ar y safle yn unig fydd yn cael trwyddedau ardaloedd masnachu bwyd a diod dros dro.

4. Mae'n rhaid i'r gweithgarwch yn y gofod allanol gydymffurfio â thelerau ac amodau'r drwydded masnachu sy'n berthnasol i'r busnes sy'n cyflwyno'r cais. Ni chaniateir unrhyw geisiadau ar y cyd.

5. Rhaid i unrhyw ddyraniad dros dro o ardal fasnachu neu ofod allanol fod yn gymesur â gweithrediad presennol y busnes ac unrhyw ofod mewnol o fewn y safle busnes.

6. Os caiff ei gymeradwyo, dim ond ar y briffordd o fewn yr ardal drwyddedig y cytunwyd arni y gellir gosod unrhyw rwystrau, ffensys, hysbysfyrddau, dodrefn neu gyfarpar arall a fydd yn cael eu marcio â phinnau ffordd a phaent chwistrellu gan y Cyngor neu ei gynrychiolydd dynodedig.

7. Yn gyffredinol, dim ond rhwng 8am a 10pm bob dydd y caniateir i unrhyw le y tu allan weithredu (gellir gosod cyfyngiadau lleol yn dibynnu ar leoliad ac amgylchiadau penodol). Ni cheir storio unrhyw offer ar y briffordd y tu allan i'r oriau gweithredu cytunedig hyn.

8. Cydymffurfir ag is-ddeddfau a Gorchmynion Diogelu Mannau Cyhoeddus (lle bo'n briodol) y Cyngor yn ogystal â'r holl bolisïau a safonau perthnasol eraill bob amser am resymau iechyd, diogelwch ac amgylcheddol.

9. Rhaid i safleoedd ar bob adeg weithredu o fewn y gofod a neilltuwyd wrth fasnachu a chydymffurfio'n llym â'r canllawiau a ddarperir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer ailagor y busnes Twristiaeth a Lletygarwch yn raddol.

10. Bydd pob busnes sydd wedi'i drwyddedu i werthu alcohol yn gyfrifol am sicrhau na fydd unrhyw un yn yfed y tu allan i'w hardal drwyddedig a farciwyd fel y cyfeirir ati yng nghymal 5 uchod.

11. Ni ddylai ffin ardal allanol dros dro unrhyw ofod a ddyrannwyd effeithio na thresmasu ar y mesurau cadw pellter cymdeithasol diogel o ran unrhyw droedffordd neu ffordd drwodd gyhoeddus gyfagos yn ôl yr hyn sydd ei angen er mwyn cydymffurfio'n rhesymol â chanllawiau a deddfwriaeth Llywodraeth Cymru.

12. Fel rhan o'r broses ymgeisio, bydd perchennog y busnes yn cyflwyno digon o fanylion mewn fformat priodol, gan gynnwys cynlluniau yn ôl yr angen, i ddangos sut y gellir rheoli a darnodi unrhyw ddyraniad dros dro o fannau allanol i fodloni'r gofynion ymbellhau cymdeithasol gofynnol mewn modd diogel.

13. Ni fydd unrhyw gymeradwyaeth ar gyfer ardal fasnachu na gofod allanol a ddyrennir yn cael ei hystyried na'i chaniatáu os bydd yn cael effaith andwyol neu'n mynd yn groes i gynlluniau adfer Canol Tref y Cyngor.

14. Ni chaniateir unrhyw gerddoriaeth na darlledu cyhoeddus o unrhyw ddigwyddiadau o gwbl ar unrhyw adeg o fewn unrhyw ardaloedd masnachu neu ofod allanol dros dro cymeradwy.

15. 'Panel Trwyddedu' sy'n cynnwys swyddogion perthnasol fydd yn ystyried cymeradwyo unrhyw ddyraniad dros dro o ardaloedd masnachu neu ofod allanol. Y panel hwn fydd yn ystyried pob cais a rhoi pob trwydded newydd. Cyfarwyddwr yr Amgylchedd (y swyddog awdurdodedig) a Phennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd fydd yn penderfynu ar awdurdodi unrhyw drwyddedau dros dro. Mae penderfyniad y swyddog awdurdodedig yn derfynol.

16. Nid yw caniatáu unrhyw ardal fasnachu neu ofod allanol dros dro ar gyfer bwyd a diod yn awgrymu bod hawl unigryw i'r ardal. Mae’r Cyngor yn cadw’r hawl i gael mynediad i’r ardal ar gyfer glanhau, trwsio neu wneud gwaith cynnal a chadw i’r ffordd fawr neu i gelfi stryd. Mae'r Cyngor felly'n cadw'r hawl i atal y caniatâd dros dro os, am unrhyw reswm, ei fod yn dod yn angenrheidiol ac i hwyluso mynediad brys gan Ymgymerwyr Statudol ar gyfer cynnal ac atgyweirio eu hoffer.

17. Bydd yr holl ffioedd sy'n gysylltiedig â chymhwyso a thrwyddedu unrhyw ardal fasnachu neu ofod allanol a ddyrennir dros dro yn cael eu hepgor am y cyfnod rhwng 27 Gorffennaf 2020 a 31 Ionawr 2021 i gynorthwyo Caffis a Bwytai ac ati yn y cyfnod adfer. Bydd yr holl gostau sy'n gysylltiedig â chydymffurfio â’r telerau a'r amodau i weithredu a chynnal y gofod allanol a ddyrennir yn cael eu talu gan y safle busnes sy'n gwneud y cais.

18. Ymgeisydd pob gofod allanol a ddyrennir fydd yn gyfrifol am sgubo a chodi’r holl sbwriel o’r gofod. Dylai unrhyw beth a gaiff ei arllwys neu ei dorri, yn enwedig gwydrau a llestri, gael ei glirio ar unwaith. Dylai’r ardal masnachu bwyd a diod dros dro gael ei glanhau’n drylwyr ar ddiwedd pob diwrnod masnachu a rhaid clirio’r holl fonion sigarét.

19. Bydd yr holl ddodrefn a ddefnyddir ar gyfer ardaloedd masnachu dros dro ar gyfer bwyd a diod yn ddiogel ac mewn cyflwr da wedi’u cynllunio ar gyfer defnydd masnachol ac yn cydymffurfio â:

BS EN 16139:2013 Prawf lefel 1 – ‘Dodrefn – cryfder, gwydnwch a gofynion diogelwch seddi annomestig’.

BS EN 15372:2008 Prawf lefel 2 – ‘Dodrefn – cryfder, gwydnwch a gofynion diogelwch byrddau annomestig’.

20. Bydd yr holl rwystrau, ffensys neu hysbysfyrddau dros dro a ddefnyddir i amgáu neu ddarnodi’r ardal fasnachu neu’r gofod allanol a ddyrennir dros dro yn cael eu darparu gan yr ymgeisydd a byddant o fath cludadwy gyda rheiliau tapio priodol ac addasiadau er diogelwch i bobl anabl. Byddant yn sefydlog ac yn gadarn heb unrhyw rannau’n dod allan ohonynt ac ni chaent gynnwys unrhyw hysbysebu ac eithrio enw'r safle sy'n dal y drwydded. Ni ellir eu defnyddio i hysbysebu gwasanaethau neu gynhyrchion a werthir.

21. Dylai parasolau, pan gânt eu hagor, gael eu diogelu'n ddiogel a'u cynnwys yn gyfan gwbl o fewn ffiniau'r gofod allanol a ddyrannwyd neu'r ardal fasnachu dros dro gydag uchder clir o 2.3m heb unrhyw elfennau'n ymestyn y tu allan i'r ffiniau a nodwyd i sicrhau nad ydynt yn achosi rhwystr neu'n peri perygl.

22. Ni ddylai’r ardal fasnachu neu’r gofod allanol a ddyrennir dros dro rwystro llwybrau argyfwng o’ch adeilad chi na rhai cyfagos, a rhaid i gerbydau gwasanaethau brys gael mynediad ar hyd y stryd bob amser, hyd yn oed mewn strydoedd neu ardaloedd i gerddwyr.

23. Bydd anghenion defnyddwyr eraill y briffordd yn cael eu hystyried e.e. cerddwyr, masnachwyr, busnesau cyfagos wrth ystyried unrhyw ardal fasnachu neu ofod allanol a ddyrennir dros dro. Bydd defnyddio troedffyrdd neu ardaloedd i gerddwyr cyfagos yn ddiogel yn cael blaenoriaeth dros unrhyw gais am ardal fasnachu neu ofod allanol a ddyrennir dros dro wrth ystyried ceisiadau.

24. Yn gyffredinol, dylai'r ardal fasnachu neu’r gofod allanol a ddyrennir dros dro ar gyfer bwyd a diodydd feddiannu ardal yn uniongyrchol o flaen y safle a bod yn weladwy o'r prif safle busnes neu dylai staff oruchwylio’r ardal bob amser.

25. Bydd yn ofynnol i'r person sy’n gyfrifol am ardal masnachu bwyd a diod dros dro pob safle (y sawl a lofnododd i gytuno â'r amodau hyn) indemnio'r Cyngor yn erbyn yr holl gamau, galwadau, costau, taliadau neu dreuliau sy'n codi o ddefnyddio'r briffordd o dan y caniatâd a roddwyd.

26. Mae angen dweud wrth yr Adran Briffyrdd ar unwaith am unrhyw ddiffyg neu ddifrod i’r Briffordd waeth beth fo’r achos. Gallai cost unioni unrhyw ddifrod i arwyneb y briffordd neu gelfi stryd a achosir gan unrhyw weithgarwch sy’n gysylltiedig â gweithredu’r ardal masnachu bwyd a diod dros dro, gael ei chodi ar y trwyddedai.

27. Bydd y Cyngor yn cynnal arolygiadau achlysurol i sicrhau y cydymffurfir â holl delerau ac amodau'r ardal masnachu bwyd a diod dros dro.

28. Mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i atal neu ddirymu unrhyw ganiatâd neu drwydded sy'n gysylltiedig ag ardaloedd masnachu neu ofod allanol a ddyrennir dros dro pe bai busnesau'n torri'r telerau ac amodau hyn neu unrhyw gytundeb trwydded heb rybudd na’r hawl i apelio.

29. Ni oddefir ymddygiad gwrthgymdeithasol o fewn neu'n gysylltiedig ag unrhyw ardaloedd masnachu neu ofod allanol a ddyrennir dros dro a bydd hefyd yn arwain at atal neu ddirymu unrhyw ganiatâd neu drwydded heb rybudd na’r hawl i apelio a heb unrhyw gyfle i ail-ymgeisio.

30. Os dymunwch weini alcohol i’w yfed yn yr ardal masnachu bwyd a diod dros dro, bydd angen trwydded safle arnoch, sy’n caniatáu gwerthu alcohol ODDI AR y safle ac yn yr ardal ddiffiniedig honno. Gellir gwneud cais am drwydded safle neu i amrywio trwydded safle drwy'r awdurdod trwyddedu lleol.

31. Nid yw cytuno i'r amodau hyn yn rhoi unrhyw hawliad i'r un darpariaethau os a phan wneir cais am drwydded caffi stryd yn y dyfodol. Bydd angen trwyddedau o'r fath yn y dyfodol i allu masnachu ar y briffordd ar ôl i’r mesurau dros dro yn y telerau ac amodau hyn ddod i ben. Bydd digon o rybudd yn cael ei roi er mwyn gwneud cais am y trwyddedau hyn (a'r cyfnod ymgynghori perthnasol) cyn diwedd y mesurau dros dro hyn.

32. Bydd unrhyw ddodrefn ar y briffordd gyhoeddus ar ôl diwedd y cytundeb yn cael eu symud gan Gyngor Bro Morgannwg. O dan Adran 137 Deddf Priffyrdd 1980, os bydd unrhyw berson, heb awdurdod nac esgus cyfreithlon, mewn unrhyw ffordd yn rhwystro eraill rhag teithio’n ddirwystr ar hyd priffordd, mae'n euog o drosedd ac yn agored i ddirwy hyd at lefel 3 ar y raddfa safonol.

33. Gall y telerau ac amodau hyn amrywio er mwyn darparu ar gyfer newid mewn amgylchiadau, deddfwriaeth neu ganllawiau a gynhyrchir gan bolisïau a gweithdrefnau Llywodraeth Cymru a Bro Morgannwg ar unrhyw adeg yn ystod cyfnod y drwydded y cytunwyd arni.

34. Yn amodol ar y swyddog awdurdodedig yn cymeradwyo a chyflwyno unrhyw ardal fasnachu neu ofod allanol a ddyrennir dros dro, bydd yn ofynnol i bob busnes lofnodi datganiad yn cytuno ar delerau ac amodau'r drwydded fel y bo'n briodol.

35. Ni fydd unrhyw orchuddion llawr yn cael eu defnyddio i bersonoli'r ardal fasnachu allanol, fel glaswellt artiffisial.

**Ardaloedd Parciau Pafin ar gyfer Bwyd a Diod**

36. Lle mae Parc Pafin wedi'i ddarparu gan yr Awdurdod, mae'r trwyddedai’n gyfrifol am yr holl gostau cynnal a chadw, gan sicrhau bod gwaith cynnal a chadw ac ymddangosiad cyffredinol yn cael ei gadw i safon uchel drwy gydol cyfnod y drwydded, gan gynnwys pan achosir difrod drwy fandaliaeth.

37. Cyfrifoldeb perchennog y busnes yw dodrefn sy'n cael eu gadael allan ar y Parciau Pafin y tu allan i oriau masnachu ac mae'r perchennog yn gyfrifol am sicrhau bod eitemau'n ddiogel pan nad ydynt yn cael eu defnyddio.

38. Ni cheir gosod ceblau llusgo ar draws y droedffordd fabwysiedig i ddarparu trydan i'r Parc Pafin annibynnol. Gellir darparu ceblau uwchben yn amodol ar gael cymeradwyaeth ar yr amod bod digon o fanylion yn cael eu rhoi i'r Rheolwr Cynnal a Chadw Priffyrdd. Bydd rhaid gosod unrhyw geblau uwchben o leiaf 2.3m i ffwrdd o’r llawr.

39. Ni chaniateir gwresogyddion nwy potel yn uned Parc Pafin.

**<u>Byrddau hysbysebu - Atodiad 02:</u>**

**Noda Adran 137(1), Deddf Priffyrdd 1980:**
*“Os yw person mewn unrhyw ffordd, heb awdurdod nac esgus cyfreithiol, yn fwriadol yn rhwystro unrhyw un rhag pasio ar hyd priffordd, mae'n euog o drosedd ac yn agored i ddirwy nad yw'n fwy na £1,000.”*
Rhoddir awdurdod cyfreithlon gan yr Awdurdod Lleol (Cyngor Bro Morgannwg yn yr achos hwn) fel yr Awdurdod Priffyrdd drwy drwydded.

**Noda Adran 149 Deddf Priffyrdd 1980:**
“(1) *Os caiff unrhyw beth ei adael ar briffordd ac yn achosi niwsans, caiff yr awdurdod priffyrdd dros y briffordd honno ofyn, trwy hysbysiad, i’r person a roddodd y gwrthrych yno ei symud yn syth ac os na chydymffurfia â’r hysbysiad, gall yr awdurdod ddwyn cwyn gerbron llys ynadon am orchymyn diddymu a gwaredu dan yr adran hon.*

*(2) Os oes gan yr awdurdod priffyrdd ar gyfer unrhyw briffordd sail resymol dros ystyried— (a) bod unrhyw beth a roddwyd yn anghyfreithlon ar y briffordd yn peri perygl (gan gynnwys perygl a achosir trwy rwystro'r olygfa) i ddefnyddwyr y briffordd, a (b) y dylid tynnu'r gwrthrych dan sylw heb yr oedi sy'n gysylltiedig â rhoi hysbysiad neu gael gorchymyn diddymu a gwaredu gan y llys ynadon o dan yr adran hon, gall yr awdurdod symud y gwrthrych yn syth."*

1. Yr uchafswm trwydded Bwrdd Hysbysebu fesul safle yw **dau**. Os rhoddir mwy na dau fwrdd hysbysebu ar y briffordd, mae hyn yn torri’r telerau ac amodau felly bydd unrhyw drwydded a geir yn cael ei diddymu heb hawl i apelio.

2. Rhaid i unrhyw fusnes sy'n gwneud cais am fwrdd hysbysebu gael yswiriant atebolrwydd cyhoeddus gwerth £5,000,000 mewn perthynas ag unrhyw ddigwyddiad a rhaid cynhyrchu copi o'r yswiriant hwn i'r Cyngor cyn y gellir ystyried trwydded.

3. Mae'r cais am fyrddau hysbysebu yn para am flwyddyn ac nid yw adnewyddu’n awtomatig a chyfrifoldeb perchennog y busnes yw sicrhau ei fod yn adnewyddu'r drwydded. Bydd methu â gwneud hynny yn arwain at symud y bwrdd hysbysebu o'r safle a'i ddinistrio ar ôl **28 diwrnod**.

4. Os caiff ei gymeradwyo, dim ond ar y briffordd o fewn yr ardal drwyddedig y cytunwyd arni y gellir gosod unrhyw fyrddau hysbysebu a fydd yn cael eu marcio â phinnau ffordd a phaent chwistrellu gan y Cyngor neu ei gynrychiolydd dynodedig.

5. Cydymffurfir ag is-ddeddfau a Gorchmynion Diogelu Mannau Cyhoeddus (lle bo'n briodol) y Cyngor yn ogystal â'r holl bolisïau a safonau perthnasol eraill bob amser am resymau iechyd, diogelwch ac amgylcheddol.

6. Ni fydd unrhyw gymeradwyaeth ar gyfer byrddau hysbysebu yn cael ei hystyried na'i chaniatáu os bydd yn cael effaith andwyol neu'n mynd yn groes i gynlluniau adfer Canol Tref y Cyngor.

7. Y Rheolwr Cynnal a Chadw Priffyrdd neu Swyddog Penodedig fydd yn ystyried cymeradwyaeth ar gyfer byrddau hysbysebu. Mae penderfyniad y swyddog awdurdodedig yn derfynol.

8. Nid yw caniatáu byrddau hysbysebu yn cynnig hawl unigryw i ddefnyddio’r ardal dan sylw. Mae’r Cyngor yn cadw’r hawl i gael mynediad i’r ardal ar gyfer glanhau, trwsio neu wneud gwaith cynnal a chadw i’r ffordd fawr neu i gelfi stryd. Mae'r Cyngor felly'n cadw'r hawl i atal y caniatâd dros dro os, am unrhyw reswm, ei fod yn dod yn angenrheidiol ac i hwyluso mynediad brys gan Ymgymerwyr Statudol ar gyfer cynnal ac atgyweirio eu hoffer.

9. Ni ddylid rhwystro llwybrau argyfwng o’ch adeilad nac o rai cyfagos gan y bwrdd hysbysebu a rhaid i gerbydau gwasanaethau brys fod â mynediad ar hyd y stryd ar bob amser, hyd yn oed mewn strydoedd i gerddwyr.

10. Bydd anghenion defnyddwyr eraill y briffordd yn cael eu hystyried e.e. cerddwyr, masnachwyr, busnesau cyfagos wrth ystyried unrhyw ardal fasnachu neu ofod allanol a ddyrennir dros dro. Bydd defnyddio troedffyrdd neu ardaloedd i gerddwyr cyfagos yn ddiogel yn cael blaenoriaeth dros unrhyw gais am ardal fasnachu neu ofod allanol a ddyrennir dros dro wrth ystyried ceisiadau.

11. Dylai'r byrddau hysbysebu ond feddiannu ardal yn uniongyrchol o flaen y safle yn unig a dylent fod yn weladwy o'r prif safle busnes neu gael eu goruchwylio gan staff ar bob adeg.

12. Bydd yn ofynnol i'r person sy’n gyfrifol am y byrddau hysbysebu (y sawl a lofnododd i gytuno â'r amodau hyn) indemnio'r Cyngor yn erbyn yr holl gamau, galwadau, costau, taliadau neu dreuliau sy'n codi o ddefnyddio'r briffordd o dan y caniatâd a roddwyd.

13. Mae angen dweud wrth yr Adran Briffyrdd ar unwaith am unrhyw ddiffyg neu ddifrod i’r Briffordd waeth beth fo’r achos. Gallai cost unioni unrhyw ddifrod i arwyneb y briffordd neu gelfi stryd a achosir gan unrhyw weithgarwch sy’n gysylltiedig â’r bwrdd hysbysebu gael ei chodi ar y safle.

14. Bydd y Cyngor yn cynnal arolygiadau achlysurol i sicrhau y glynir wrth holl delerau ac amodau'r byrddau hysbysebu. Gallai unrhyw achosion o dorri amodau arwain at dynnu’r bwrdd hysbysebu o'r safle heb rybudd.

15. Bydd unrhyw ddodrefn ar y briffordd gyhoeddus ar ôl diwedd y cytundeb yn cael eu symud gan Gyngor Bro Morgannwg. O dan Adran 137 Deddf Priffyrdd 1980, os bydd unrhyw berson, heb awdurdod nac esgus cyfreithlon, mewn unrhyw ffordd yn rhwystro eraill rhag teithio’n ddirwystr ar hyd priffordd, mae'n euog o drosedd ac yn agored i ddirwy o hyd at £1,000.

16. Gall y telerau ac amodau hyn amrywio er mwyn darparu ar gyfer newid mewn amgylchiadau, deddfwriaeth neu ganllawiau a gynhyrchir gan bolisïau a gweithdrefnau Llywodraeth Cymru a Bro Morgannwg ar unrhyw adeg yn ystod cyfnod y drwydded y cytunwyd arni.

17. Yn amodol ar y swyddog awdurdodedig yn cymeradwyo a chyflwyno unrhyw ardal fasnachu neu ofod allanol a ddyrennir dros dro, bydd yn ofynnol i bob busnes lofnodi datganiad yn cytuno ar delerau ac amodau'r drwydded fel y bo'n briodol.

18. Bydd byrddau hysbysebu yn cael eu tynnu gan y busnes y tu allan i oriau masnachu. Bydd unrhyw fyrddau hysbysebu sy'n cael eu gadael y tu allan i'r oriau hyn yn cael eu symud a chodir ffi weinyddol o £111.00 ar yr ymgeisydd i gasglu'r eitem o Depo’r Alpau, Quarry Road, Gwenfô, CF5 6AA.

19. Ni cheir gosod ceblau llusgo ar draws y droedffordd fabwysiedig i ddarparu trydan i'r bwrdd hysbysebu.

20. Mae’n ofynnol sicrhau **1.2 metr** o ofod heb rwystrau o ffiniau pellach y bwrdd hysbysebu. Mae’r pellter hwn yn caniatáu i ddefnyddwyr y briffordd symud yn rhydd yn ogystal â darparu digon o le i’r rheiny sydd â cherbydau cymorth symudedd neu sydd â chymhorthion cerdded neu eitemau eraill sydd angen rhagor o le megis coetsis.

21. Ni chaniateir gosod byrddau hysbysebu ar y lôn gerbydau nac mewn mannau parcio nac mewn ardaloedd eraill a ddylunnir i’w defnyddio gan gerbydau yn arbennig. Mae’n rhaid iddynt beidio â bod ger croesfannau i gerddwyr nac ar neu’n agos at balmant botymog. Diben y palmant botymog yw arwain y bobl sydd â nam ar y golwg i fannau croesi diogel. Dylid cymryd gofal wrth osod bwrdd hysbysebu fel nad yw’n amharu ar gelfi stryd ac y cedwir llwybr clir i gerddwyr pan fo celfi stryd yn bresennol.

22. Pan fo amgylchiadau eithriadol yn berthnasol, gellir cael caniatâd gan y Cyngor i amrywio o’r rheol hon, pan fydd y Cyngor yn fodlon na fydd rhoi caniatâd o’r fath yn achosi rhwystr nac anawsterau i aelodau’r cyhoedd, yn arbennig y rheiny sydd ag unrhyw fath o anableddau.

23. Mae’n rhaid i fyrddau hysbysebu fod ar eu coesau ac mewn cyflwr da bob amser. Felly, dylai byrddau hysbysebu aros yn weladwy o'r tu mewn i'r adeilad fel bod defnyddiwr y drwydded yn gallu sicrhau hyn. Os yw bwrdd hysbysebu wedi disgyn drosodd yna mae'r perygl posibl y gallai ei achosi yn cynyddu’n sylweddol ac felly bydd unrhyw fwrdd hysbysebu sydd wedi disgyn drosodd yn cael ei ystyried fel rhwystr peryglus.

24. O dan adran 132 o Ddeddf Priffyrdd 1980, ni chaiff unrhyw berson osod llun, llythyr, arwydd neu farc arall ar wyneb y briffordd neu ar unrhyw goeden, strwythur neu waith heb ganiatâd penodol gan y Cyngor. Mae’r telerau ac amodau yn gwahardd byrddau hysbysebu rhag cael eu gosod mewn unrhyw ffordd barhaol neu led-barhaol. Ni chaniateir i unrhyw un, o dan unrhyw amgylchiadau, wneud unrhyw fath o waith cloddio ar y briffordd i ddiogelu bwrdd hysbysebu. Bydd unrhyw berson y nodir ei fod yn mynd yn groes i adran 132 o'r Ddeddf Priffyrdd yn agored i Hysbysiad Cosb Benodedig neu erlyniad yn y llys ynadon.

25. Rhaid i bob bwrdd hysbysebu ym Mro Morgannwg fod dim mwy na 700mm o ran lled a dim mwy na 1000mm o ran uchder o waelod y bwrdd. Efallai na fydd aelodau o'r cyhoedd yn sylwi ar fyrddau hysbysebu sy'n rhy fach a all achosi perygl bagio a gall byrddau hysbysebu sy'n rhy fawr achosi anaf difrifol os byddant yn disgyn. Am y rheswm hwn bydd unrhyw fwrdd hysbysebu a welir sydd naill ai'n llai neu'n fwy na'r meintiau a ganiateir yn cael ei ystyried yn rhwystr peryglus.

26. Mae byrddau hysbysebu a byrddau hysbysebu sy’n siglo ym Mro Morgannwg wedi’u gwahardd. Mae hyn yn golygu, o unrhyw gyfeiriad teithio, mai dim ond un droed sy’n cyffwrdd â'r palmant neu'r droedffordd heb le i ffon gerdded neu wrthrych basio o dan y bwrdd.

**At ddibenion darluniadol yn unig:**
**Gwaherddir**







**Caniateir**







27. Nid oes ots pa ddeunyddiau a ddefnyddiwyd i wneud y bwrdd, er enghraifft gallai byrddau dal i fod wedi cael eu gwneud o bren neu fetel ar yr amod bod ganddynt un droed yn cwrdd â llinell y llawr a’u bod yn gadarn ac yn ddiogel.

28. Cyfrifoldeb perchennog y busnes sy'n gyfrifol am y bwrdd hysbysebu yw sicrhau ei fod wedi'i drwyddedu'n gywir a dim ond yn cael ei ddefnyddio'n gyfreithlon a'i fod yn ddiogel. Yr unig eithriad i hyn yw pan fo'r cwmni yn gwmni Ltd. ac yn yr achos hwnnw ysgrifennydd y cwmni fydd yn gyfrifol.

29. Mae methu â chadw at delerau ac amodau'r drwydded a roddwyd yn cyflwyno perygl diogelwch a bydd y Cyngor a'i swyddogion awdurdodedig yn gweithredu dull dim goddefgarwch gydag unrhyw achosion o dorri'r telerau ac amodau neu ofynion deddfwriaethol. Ymchwilir i unrhyw fyrddau hysbysebu a arsylwir sy’n mynd yn groes i'r telerau ac amodau a bydd camau gweithredu’n cael eu cymryd.

30. Rhaid i bob Bwrdd hysbysebu gydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010 a rhaid iddo beidio â hyrwyddo na chynnwys deunydd a allai gael ei ystyried yn wahaniaethol, sy'n peri tramgwydd neu sy’n hybu aflonyddu neu erledigaeth. Rhaid i bob Bwrdd hysbysebu beidio â gwahaniaethu yn erbyn unrhyw un ar sail oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas neu statws partneriaeth sifil, hil, crefydd neu gredo, rhyw na chyfeiriadedd rhywiol. Nid yw'r rhestr hon yn hollgynhwysol ac mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i gymryd camau lle y gellid ystyried bod unrhyw

fwrdd hysbysebu yn torri Deddf Cydraddoldeb 2010 neu y gellir ystyried ei fod yn amhriodol neu y gallai beri tramgwydd.

31. Pan fo swyddog awdurdodedig o'r farn bod bwrdd hysbysebu yn beryglus, yna gall y Cyngor gymryd y bwrdd hysbysebu ar unwaith i'w storio am **28 diwrnod** ar draul y perchennog. Gosodir y ffi storio **28 diwrnod** ar £111.00 a bydd methiant i gasglu'r bwrdd a thalu'r ffioedd perthnasol o fewn yr amserlen hon yn arwain at ddinistrio'r bwrdd a bydd yr holl gostau'n cael eu hadennill gan berchennog y busnes.

32. Mewn unrhyw amgylchiadau eraill, bydd swyddog awdurdodedig yn rhoi hysbysiad i'r person yr ymddengys mai ef sy'n gyfrifol am y bwrdd hysbysebu sy'n gofyn am symud y bwrdd hysbysebu o'r briffordd. Rhaid cydymffurfio â'r hysbysiad hwn, neu gellir dechrau camau gorfodi pellach neu geisio gorchymyn llys i gyflawni gofynion yr hysbysiad.

33. Gan fod tramgwyddau byrddau hysbysebu yn droseddol yn hytrach na sifil, caiff erlyniadau eu gwneud drwy'r llysoedd ynadon fel arfer.

34. Nid yw trwyddedau'n drosglwyddadwy.

**Sgaffaldiau ar y briffordd – Atodiad 03:**

1. Ni cheir dechrau unrhyw waith gosod sgaffaldau neu hysbysfyrddau ar y briffordd gyhoeddus heb drwydded awdurdodedig na heb dalu'r ffi gywir. Rhaid cyflwyno'r cais o leiaf 5 diwrnod gwaith cyn dechrau'r gwaith. Bydd angen gwneud cais yn gynharach, ac efallai y bydd angen cyfyngiadau ychwanegol pan fo ffactorau eraill yn effeithio ar y safle arfaethedig, sensitifrwydd traffig, oriau gwaith cyfyngedig, mynediad cyfyngedig i'r safle, ardaloedd i gerddwyr, ardaloedd siopa ayyb.

2. Caiff sgaffaldau eu codi'n ddiogel ar y diwrnod y byddant yn cyrraedd gan neu dan oruchwyliaeth person cymwys a phrofiadol yn gwneud gwaith o'r fath.
   Ni chaiff deunyddiau dros ben eu gadael ar y safle oni bai eu bod o fewn ardal â ffensys, hefyd rhaid symud yr holl ddeunyddiau o'r safle ar y diwrnod datgymalu.

3. Rhaid cadw'r cyhoedd yn ddiogel ar bob adeg wrth godi a datgymalu sgaffaldau.

4. Rhaid i sgaffaldau fod wedi eu goleuo'n briodol ar bob adeg rhwng hanner awr cyn y machlud a hanner awr ar ôl y machlud, neu yn ystod niwl.

5. Rhaid cadw sgaffaldau 450mm yn ôl o ymyl llinell y cwrbyn hyd at uchder o 5.5m.

6. Mae sgaffaldau sy'n nes na 450mm i ymyl y lôn gerbydau, neu safle arfaethedig y sgaffaldau, yn debygol o gael eu difrodi gan drawiad yn sgil cerbydau'n pasio. Dan yr amgylchiadau hyn, dylid darparu rhwystrau wedi'u diogelu, eu goleuo a'u harwyddo'n ddigonol ar hyd wyneb y strwythur. Yn gyffredinol, derbynnir defnyddio rhwystrau plastig wedi'u llenwi â dŵr/tywod (Wal ffordd) ar bob prif lwybr traffig.

7. Lle caiff cerddwyr eu dargyfeirio i lôn gerbydau, rhaid darparu llwybr ar eu cyfer sydd o leia'n 1.2m o led gyda rhwystr cerddwyr cadarn gyda rheilen dapio a chanllaw. Dylid defnyddio rampiau o ddeunydd gwrth lithro i gynorthwyo symudedd dros gyrbau uwch.

8. Lle bo'n briodol rhaid cynnal mynediad i gerddwyr drwy'r sgaffaldau a bydd yr amodau canlynol yn berthnasol:-

   A. Rhaid sicrhau cliriad pen o 2.3 metr o leiaf.

   B. Rhaid i sgaffaldau islaw 2.3 metr, gan gynnwys platiau / byrddau gwaelod, gael eu lliwio'n gyfatebol addas gan ddefnyddio ewyn melyn gyda baneri bach coch a gwyn fel bod cerddwyr wedi'u rhybuddio o bresenoldeb y sgaffaldau.

   C. Rhaid codi sgaffaldau fel nad oes unrhyw glymau neu fresys yn rhwystr ar y briffordd islaw uchder o 2.3 metr.

D. Dylid cadw lled di-rwystr ar hyd y droedffordd o 1.5 metr mewn mannau poblog prysur. Gall lleiafswm o 1.2 metr fod yn dderbyniol mewn mannau llai poblog. Mae angen y lled hwn i alluogi defnyddwyr cadeiriau olwyn neu'r rheiny â chŵn tywys i basio'n ddiogel.

9 Rhaid i'r trwyddedai sicrhau bod y goleuo a'r mesurau diogelu'n cydymffurfio â Phennod 8 y Llawlyfr Arwyddion Traffig. Gofyniad wrth gwblhau unrhyw waith ar y briffordd yw bod y gwaith yn cael ei arwyddo, ei ddiogelu a'i oleuo'n briodol yn unol â 'Chod Ymarfer Diogelwch Gwaith Stryd a Gwaith Ffyrdd', a'i fod yn bodloni Cyngor Bro Morgannwg.

10 Rhaid i sgaffaldau beidio â rhwystro gwasanaethau nwy / dŵr / trydan, cysgodfannau bysus, blychau post, neu allanfeydd brys ar gyfer unrhyw safleoedd preswyl neu fasnachol. Rhaid iddynt hefyd beidio â rhwystro unrhyw blatiau arwyddion ffordd.

11. Caiff offer codi ac olwynion pwli eu ffensio'n ddigonol, ac ni chaiff llwyth ei godi na'i ostwng dros y briffordd oni bai bod y trwyddedai wedi rhoi mesurau addas ar waith i ddiogelu'r cyhoedd.

12. Rhaid rhoi mesurau addas ar waith i atal unrhyw ddefnyddiwr y briffordd rhag cael ei daro gan sbwriel, deunydd, offer neu wrthrychau eraill yn syrthio. Rhaid i lifft cyntaf sgaffaldau gael ei fyrddio'n glos â Monoflex drosto gydag ail haen o fyrddau arno i atal sbwriel, deunydd neu wrthrychau eraill rhag syrthio ar y briffordd. Rhaid darparu llwybrau traffig neu gerdded wedi'u gorchuddio lle bo angen. RHAID i sgaffaldau fod wedi'u cysylltu'n briodol ar bob adeg â'r adeiledd gerllaw iddynt neu wedi'u bresio'n allanol i atal dadleoli gan gynnwys gwrthsefyll gwyntoedd cryfion ac unrhyw dywydd eithafol arall.

13. Pan fo angen codi sgaffaldau mewn argyfwng y tu allan i oriau, rhaid cyflwyno trwydded sgaffaldau y diwrnod gwaith nesaf a rhaid rhoi gwybod i'r Awdurdod Priffyrdd cyn gynted ag sy'n rhesymol bosibl.

14. Caiff pob ysgol is ei thynnu neu ei chloi gyda chlo ysgol pan na ddefnyddir y sgaffaldau i rwystro mynediad diawdurdod.

15. Bydd enw, cyfeiriad, rhif ffôn swyddfa a rhif ffôn cyswllt ar gyfer argyfwng y 'Tu Allan i Oriau' y contractwr sgaffaldau yn cael eu harddangos yn amlwg ar 'Scafftag' gan gynnwys llofnod yr archwilydd sgaffaldau cymwys, a dyddiad ac amser yr archwiliad. Rhaid i sgaffaldau gael eu harchwilio'n wythnosol a rhaid i 'Scafftag' gael ei lofnodi gan berson cymwys a rhaid i gofnodion gael eu cadw gan y Trwyddedai. Gallai methu ag archwilio arwain at gael gwared ar gontractwr trydydd parti gyda'r holl gostau'n cael eu hadennill.

16. Y trwyddedai fydd yn gyfrifol am unrhyw ddifrod sy'n cael ei achosi i asedau'r Awdurdod Priffyrdd ac am wneud yn dda unrhyw ddifrod a achoswyd. Caiff sgaffaldau safonol eu gosod gyda phlatiau gwaelod metel addas, gyda phlatiau gwaelod pren lle bo angen er mwyn diogelu'r ased i foddhad Cyngor Bro Morgannwg.

17. Rhaid i gopi o'r drwydded gael ei arddangos ar y safle ar bob adeg yn ystod y cyfnod y mae'r sgaffaldau wedi'u codi.

18. Tynnir sylw’r Trwyddedai at ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974, Rheoliadau Gweithio ar Uchder 2005 a'r holl ddeddfwriaeth a Chodau Ymarfer cyfredol perthnasol.

## Cosbau diffyg cydymffurfio

Os bydd unrhyw ddifrod i’r briffordd, bydd Cyngor Bro Morgannwg yn adennill yr holl gostau am atgyweiriadau gan ddeiliad y drwydded.

- Os rydych yn methu â chydymffurfio â'r Telerau ac Amodau a’r holl ddeddfwriaeth berthnasol, byddwch yn agored i gamau gorfodi sy'n cynnwys Hysbysiad Cosb Benodedig **Rhan IX Deddf Priffyrdd 1980 am Rwystro Priffordd.**
- Adran 137 (Cosb am rwystro bwriadol) Hysbysiad cosb benodedig o £100
- Adran 137ZA Pŵer i orchymyn i’r troseddwr symud y rhwystr
- Adran 169 Rheoli Sgaffaldau (Cyflawni Trosedd dan yr adran hon) Cosb benodedig o £100
- Adran 140 Symud Sgaffaldau Adeiladwyr (Pŵer i symud ac adennill costau)
- Adran 149 Symud pethau sy’n cael eu gadael ar Briffyrdd ac sy’n peri niwsans ac ati. (Pŵer i symud ac adennill costau).

**Indemniad Cyfreithiol**

Bydd deiliad y Drwydded yn indemnio Cyngor Bro Morgannwg a/neu ei weision a’i asiantau a’u hindemnio’n barhaol rhag unrhyw atebolrwydd, rhag unrhyw hawliadau, galwadau, gweithredoedd, costau a difrodau sy'n deillio o ganlyniad i godi sgaffaldau ar y lôn gerbydau, ar droedffordd neu ar lain laswellt. Bydd cyfnod yr indemniad yn ddilys o ddyddiad codi'r sgaffaldau i'r dyddiad y cânt eu symud. Rhaid i’r trwyddedai sicrhau bod yswiriant atebolrwydd cyhoeddus ar waith ganddo. Bydd y swm a yswirir gan y polisi yn £5,000,000 ar gyfer unrhyw un digwyddiad gydag yswiriwr cyfrifol. Yn ôl yr angen, bydd y Trwyddedai’n rhoi’r polisi neu’r polisïau yswiriant i’r Awdurdod ynghyd â derbynebau ar gyfer talu am y polisi cyfredol.

**Sgipiau ar y briffordd- Atodiad 04:**

1. Rhaid nodi enw'r perchennog a rhif ffôn 24 awr yn glir ar bob sgip.

2. Caiff pob sgip ei osod ar y lôn gerbydau / y llain ymyl y tu allan neu gerllaw’r lleoliad yn y cais, a chaiff lleiniau ymyl ac arwynebau ffordd eu hamddiffyn yn ddigonol a chaiff ei osod fel bod yr ochr letaf yn gyfochrog ag ymyl y lôn gerbydau, a'i osod mor agos â phosibl at ymyl y lôn gerbydau ag sy’n rhesymol ymarferol gan sicrhau na fydd yn amharu ar ddraeniau dŵr wyneb y briffordd nac ar unrhyw dyllau archwilio na chyfarpar unrhyw un o ymgymerwyr statudol Cyngor Bro Morgannwg.

3. Pan fo mwy nag un sgip ar y briffordd ar un adeg, bydd y sgipiau’n cael eu lleoli mor agos â phosibl at ei gilydd, ond nid fel y byddant yn rhwystro mynediad i unrhyw safle oni bai bod cymeradwyaeth ymlaen llaw wedi’i chael.

4. Ni fydd unrhyw sgip yn hwy na 5 metr nac yn lletach na 2 fetr.

5. Rhaid i bob sgip neu grŵp o sgipiau a osodir ar y briffordd gydymffurfio â'r gofynion canlynol:

    a. Caiff dau ben pob sgip eu paentio'n felyn a bydd llinellau lletgroes adlewyrchol melyn a fflworolau coch, yn unol â Rheoliadau Sgipiau Adeiladu 1984, eu gosod o dan bob pen ac ar draws ymyl pob pen fel y byddant yn weladwy i draffig. Rhaid sicrhau bod y paentiad a’r llinellau bob amser yn lân ac na chânt eu rhwystro gan darpolinau neu unrhyw fathau o orchuddion.

    b. Pan fo sgip yn cael ei osod ar y lôn gerbydau, rhaid gosod o leiaf 3 chôn traffig ar y lôn gerbydau mewn llinell letraws ar ochr y sgip sy’n wynebu’r traffig. Pan fo 2 neu fwy o sgipiau’n cael eu gosod mewn rhes fel nad yw'r pellter rhwng sgipiau cyfagos yn fwy na 2 fetr, bydd y rhes yn cael ei gwarchod fel pe bai'n un sgip.

    c. Gyda’r nos (rhwng hanner awr cyn i’r haul fachlud a hanner awr ôl iddo godi)

        i. Caiff lamp melyn a weithredir â batri ei gosod yn erbyn pob cornel y sgip neu ei hatodi iddo, neu ar gorneli pen rhes o sgipiau pan fo 3 neu fwy o sgipiau wedi'u gosod mewn rhes ac nad yw'r pellter rhwng sgipiau cyfagos yn fwy na 2 fetr.

        ii. Pan fo sgip yn cael ei osod ar lôn gerbydau, caiff lampau eu gosod yn unol â’r disgrifiad yn 5c) i) uchod, a chânt eu gosod hefyd rhwng y conau y cyfeirir atynt yn 5b) uchod. Bydd pŵer goleuol pob lamp yn cyfateb i o leiaf un candela, a bydd ynghynn drwy gydol y nos.

6. Ni fydd unrhyw sgip, pan fo'n sefyll yn y briffordd, yn cynnwys unrhyw ddeunydd fflamadwy,

ffrwydrol, gwenwynig neu beryglus, na deunydd sy'n debygol o bydru, sy'n niwsans i ddefnyddwyr y briffordd, nac sy'n debygol o fod yn niwsans.

7. Ni chaiff unrhyw sgip ei ddefnyddio mewn ffordd y bydd ei gynnwys yn cwympo ar y briffordd, neu fod llwch o'r sgip yn dianc tra bydd ar y briffordd.

8. Dylid symud pob sgip i'w wagio cyn gynted ag y bydd yn ymarferol, ac o fewn 2 ddiwrnod ar ôl iddo gael ei lenwi ym mhob achos. Rhaid i'r holl wastraff gael ei roi mewn rhwydi sbwriel er mwyn atal gwastraff rhag cael ei ollwng ar y briffordd pan gaiff ei symud.

9. Ni fydd unrhyw sgip yn aros ar y briffordd ar sail y caniatâd hwn ar ôl i'r drwydded ddod i ben.

10. Os na all ceisiadau gael eu ffacsio neu eu hanfon drwy e-bost am unrhyw reswm, rhaid i'r ymgeisydd gysylltu â Chyngor Bro Morgannwg i wneud cais llafar; gellir postio'r ffurflen gais wedyn. Cyfrifoldeb yr ymgeisydd yw cofnodi holl wybodaeth unrhyw gais llafar.

**Cosbau diffyg cydymffurfio**

Bydd costau unrhyw gamau gweithredu a gymerir gan Gyngor Bro Morgannwg i unioni torri unrhyw un o'r amodau hyn, neu atgyweirio unrhyw ddifrod a achoswyd yn cael eu hadennill gan Ddeiliad y Drwydded.

**Indemniad Cyfreithiol**

Bydd Deiliad y Drwydded yn indemnio ac yn parhau i indemnio Cyngor Bro Morgannwg a/neu ei weision a'i asiantau rhag unrhyw atebolrwydd, rhag unrhyw hawliadau, galwadau, camau gweithredu, costau a difrodau sy'n deillio trwy neu o ganlyniad i osod sgipiau ar y briffordd, ar droedffordd, neu ar lain laswellt. Bydd cyfnod yr indemniad yn dechrau'r un pryd ag y gosodir y sgip hyd nes y'i symudir yn barhaol. Bydd y swm a yswirir gan y polisi yn £5,000,000 ar gyfer unrhyw un digwyddiad gydag yswiriwr cyfrifol. Ar unrhyw adeg y bydd yn ofynnol, bydd Deiliad y Drwydded yn cyflwyno'r polisi neu'r polisïau yswiriant a'r derbynebau sy'n nodi'r taliad am y polisi presennol, i'r Awdurdod.